

## Nodiadau cyfarfod gyda disgyblion yn Ysgol Gynradd Heol y Celyn

Dydd Mercher, 14 Tachwedd am 2.30pm

### Cyfarfod i drafod cynigion y Cyngor i ad-drefnu darpariaeth ysgolion yn ardal Pontypridd

#### Yn bresennol

Gaynor Davies (GD), Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant  
Andrea Richards (AR), Pennaeth Rhaglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif  
Nicola Goodman (NG), Uwch Swyddog Rhaglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif  
21 o ddisgyblion Ysgol Gynradd Heol y Celyn (cyfuniad o ddisgyblion o'r ffrwd  
Gymraeg a'r ffrwd Saesneg – Blynyddoedd 3/4/5/6)

#### Cyflwyniadau

Gofynnodd GD a oedd y disgyblion yn deall beth oedd y cynigion. Roedd llawer yn eu deall.

Eglurodd GD y rhesymau dros y cynigion, sef sicrhau y byddai pob disgybl yn cael bod mewn ysgol fodern yn yr 21<sup>ain</sup> ganrif.

Cafodd y newidiadau arfaethedig i bob ysgol sy'n rhan o'r cynnig yma eu nodi fel a ganlyn:

- Chweched dosbarth newydd yn Ysgol Gyfun Bryncelynnog ar gyfer dros 400 o ddisgyblion (a chau'r chweched dosbarth yn Ysgol Uwchradd Pontypridd, Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen ac Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain);
- Dwy ysgol newydd ar gyfer disgyblion 3-16 oed ar safle Ysgol Uwchradd Pontypridd ac Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen;
- Mwy o leoedd ysgol Cyfrwng Cymraeg mewn ysgol newydd sbon ar safle Ysgol Gynradd Heol y Celyn. Byddai disgyblion o Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton hefyd yn mynd i'r ysgol Cyfrwng Cymraeg llwyr yma;
- Byddai'r dalgylchoedd ar gyfer rhai ysgolion yn newid, h.y. byddai'r ysgol y byddech chi'n debygol o fynd iddi yn dibynnu ar y stryd lle'r ydych chi'n byw yn newid i rai disgyblion yn y dyfodol;
- Ysgol 3-16 Pontypridd fyddai Ysgol Uwchradd Pontypridd ac Ysgol Gynradd Cilfynydd gyda'i gilydd;
- Ysgol 3-16 y Ddraenen Wen fyddai Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen, Ysgol Gynradd Heol y Celyn (ffrwd Cyfrwng Saesneg) ac Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen gyda'i gilydd;
- Erbyn 2022, y cynnig yw y bydd adeilad ysgol newydd a manau chwarae y tu allan ar safle Ysgol Gynradd Heol y Celyn ar gyfer disgyblion Cyfrwng Cymraeg;
- Dylai disgyblion Cyfrwng Saesneg o Ysgol Gynradd Heol y Celyn fynd i'r ysgol 3-16 yn y Ddraenen Wen. Mae llawer o arian yn cael ei wario ar yr ysgol yma hefyd;
- Buddsoddiad o £12 miliwn yn Ysgol 3-16 y Ddraenen Wen, ynghyd â £10.7 miliwn ar safle Ysgol Gynradd Heol y Celyn.

Cafodd dau glip fideo eu chwarae o ddwy ysgol sydd newydd eu hadeiladu yng Nghwmaman a Thonyrefail yn rhan o Raglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif.

Esboniodd GD mai pwrpas y cyfarfod gyda'r disgyblion heddiw oedd i'r Cyngor glywed a chofnodi safbwyntiau'r disgyblion am y cynigion, gan fod eu barn yn bwysig iawn i'r Cyngor.

Er mwyn hwyluso'r drafodaeth, gofynnodd GD rai cwestiynau i'r disgyblion:

**C. Gofynnodd GD a oedd y disgyblion yn deall y cynigion.**

A. Cytunodd pob disgybl eu bod nhw'n eu deall.

**C. Gofynnodd GD a oedd y disgyblion o'r farn bod y cynigion yn syniad da neu'n syniad gwael.**

A. Ymatebion cadarnhaol gan ddisgyblion

- Bydd plant mewn dosbarthiadau iau yn cael cyfleusterau gwell ac addysg well.
- Bydd brodyr a chwirydd iau yn mynd i ysgol gwbl Gymraeg. Bydd yn well iddyn nhw achos byddan nhw'n fwy tebyg i'r disgyblion o ysgolion Cymraeg eraill pan fyddan nhw'n mynd i'r ysgol uwchradd yng Ngarth Olwg.

Eglurodd GD gynigion y Cyngor i newid ysgolion eraill yn ysgolion Cyfrwng Cymraeg llwyr, gan fod disgyblion wedyn yn cael eu trochi yn llawn yn yr iaith Gymraeg.

A. Ymatebion negyddol gan ddisgyblion.

- Bydd yn drist gweld yr ysgol yn cau.
- Pryderon ynghylch cau'r dosbarth anghenion arbennig yn yr ysgol. Eglurodd GD y bwriad i symud y dosbarth anghenion arbennig yn yr ysgol gan fod nifer y disgyblion yn y dosbarth yn isel. Byddai dosbarth arall yn agor mewn man lle'r oedd yr angen yn fwy.
- Mae cyfeillion yn y ffrydiau Saesneg a Chymraeg yn helpu ei gilydd i ddysgu ieithoedd a fydd dim modd iddyn nhw wneud hyn yn yr ysgol newydd.

Roedd GD yn cydnabod bod hyn yn bwynt pwysig iawn ac esboniodd y byddai'r ysgolion newydd yn fwy o faint (e.e. 480 o ddisgyblion yn ogystal â dosbarth meithrin yn yr ysgol Gymraeg newydd ar safle Ysgol Gynradd Heol y Celyn). Byddai hyn yn creu cyfleoedd newydd i wneud ffrindiau, cynnal rhagor o glybiau ar ôl yr ysgol, ac ati.

Gofynnodd AR pa iaith yn bennaf a oedd yn cael ei siarad ar yr iard, a Saesneg oedd yr ymateb gan y mwyafrif.

Yna, cafodd y disgyblion gyfle i ofyn cwestiynau:

**C. Beth fydd yn digwydd i'r athrawon yn yr ysgol yma?**

A. Eglurodd GD y byddai'r athrawon yn cael y cyfle i aros yn yr ysgol (y ffrwd Gymraeg), neu ddysgu mewn man arall (e.e. Ysgol 3-16 y Ddraenen Wen), neu efallai y bydden nhw'n dewis gadael.

**C. *Ble byddai disgyblion y ffrwd Saesneg yn mynd yn Ysgol 3-16 y Ddraenen Wen?***

A. Eglurodd AR y cynnig. Byddai disgyblion o'r dosbarth meithrin hyd at flwyddyn 4 yn mynd i adeilad Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen, a byddai disgyblion blwyddyn 5 i 8 mewn adeilad arall.

**C. *A fydd y cynnig yn effeithio ar weithgareddau haf Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen?***

A. Eglurodd AR y byddai modd i'r rhain wella, achos mae'n bosibl y byddai ardaloedd chwarae awyr agored Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen hefyd yn cael eu gwella.

**C. *A fyddai'n beth gwael i gymysgu pobl ifainc yn eu harddegau gyda phobl tair oed, gan fod y bobl ifainc yn eu harddegau yn yfed, rhegi ac ysmygu?***

A. Eglurodd GD ddylai pobl ifainc yn eu harddegau ddim bod yn ysmygu nac yn yfed yn yr ysgol, a fyddai ysgol newydd o'r fath ddim yn cymysgu plant bach â phlant hŷn. Byddai iardiau ar wahân, ac ati iddyn nhw.

Eglurodd GD ymhellach bod y disgyblion hŷn yn Ysgol Gymuned Tonyrefail yn helpu'r disgyblion oedran ysgol gynradd gyda'u darllen, ac ati.

Ychwanegodd AR bod modd i'r disgyblion ddefnyddio'r cyfleusterau ysgol uwchradd ar gyfer gwyddoniaeth, celf, chwaraeon, ac ati.

Dywedodd GD fod plant hŷn fel arfer yn gosod esiampl i blant iau yn yr ysgol ac maen nhw'n ymddwyn yn well pan fo plant iau o'u cwmpas.

**C. *Rwy'n poeni am gerdded i'r Ddraenen Wen. Mae'r traffig yn wael ac yn beryglus.***

A. Eglurodd GD fod diogelwch yn un o brif flaenoriaethau'r Cyngor.

Eglurodd AR fod arolygiad yn cael ei gynnal o'r ardal gyfan i sicrhau bod y llwybr i'r ysgol yn ddiogel (e.e. mae yna fesurau arafu traffig y tu allan i Ysgol Gynradd Heol y Celyn ar hyn o bryd). Bydd arbenigwyr yn cynnig syniadau er mwyn sicrhau bod y daith ar droed yn ddiogel.

Ychwanegodd GD fod 97 o blant sy'n byw yn yr ardal yma eisoes yn dewis mynd i'r Ddraenen Wen.

**C. *Beth am y traffig? Bydd llawer o geir. Hefyd, a fyddai hyn yn creu rhwystr i fynedfa'r orsaf ambiwlans?***

A. Eglurodd GD bod y safle ddim yn bell iawn, felly byddai modd i bobl ddewis cerdded yno. Mae diogelwch yn bwysig iawn. Bydd pobl yn dod

i'r arfer â'r trefniadau newydd dros amser a byddan nhw'n gwybod pryd i adael y tŷ, faint o amser bydd y daith yn ei chymryd, ac ati.

Eglurodd AR y bydd cylchoedd troi yn cael eu creu er mwyn cynnal llif y traffig. Mae hyn yn golygu bydd modd i rieni ollwng eu plant, troi o gwmpas ac yna gadael yn syth.

Eglurodd AR hefyd fod yr ysgolion yn newid pryd maen nhw'n dechrau ac yn gorffen, fel bod diwrnod y disgyblion uwchradd yn dechrau ac yn gorffen ar adeg wahanol i ddiwrnod y disgyblion cynradd. Mae clybiau brecwast hefyd yn golygu bod llawer o ddisgyblion yn cyrraedd yn gynharach ac felly, mae disgyblion yn cyrraedd ar adegau gwahanol. Mae clybiau ar ôl ysgol hefyd yn helpu, gan fod disgyblion gwahanol yn gadael ar adegau gwahanol, yn hytrach na phob disgybl yn gadael ar yr un pryd.

**C. Os yw'r ysgolion yn cael eu dymchwel, ble bydd y disgyblion yn mynd i'r ysgol?**

- A. Bydd adeilad Ysgol Gynradd Heol y Celyn yn aros yn ei le a bydd yr adeilad ysgol newydd yn cael ei adeiladu ger yr adeilad presennol, felly bydd modd i'r disgyblion weld yr adeilad newydd yn tyfu.

**C. Rwy'n poeni am fy chwaer yn dechrau yn yr ysgol gyda disgyblion eraill dydy hi ddim yn eu hadnabod.**

- A. Eglurodd GD fod llawer o weithgareddau ar y cyd yn cael eu cynnal i sicrhau bod disgyblion yn dod i adnabod ei gilydd ymlaen llaw.

**C. Beth fydd yn digwydd i'r tai yn yr ardal?**

- A. Dywedodd GD y byddai'r tai yn aros.

Ychwanegodd AR fod teuluoedd newydd yn aml yn symud fel bod modd i'w plant fynd i ysgol newydd a bod prisiau weithiau'n codi pan fydd ysgol newydd yn cael ei hadeiladu gerllaw.

**C. Os bydd y chweched dosbarth yn diflannu o Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen, a fydd grwpiau eraill yn yr ysgol yn cynyddu? Beth fydd yn digwydd i'r chweched dosbarth?**

- A. Eglurodd GD y byddai disgyblion y chweched dosbarth unai yn mynd i Goleg y Cymoedd neu i Ysgol Gyfun Bryncelynnog. Byddai gweddill yr ysgol yn cael ei defnyddio ar gyfer yr holl grwpiau blwyddyn eraill.

**C. Gawn ni gadw'r ysgol fel y mae?**

- A. Eglurodd GD fod y Cyngor eisiau darparu ysgolion gwell gyda chyfleusterau gwell a manau chwarae gwell.

- C. Os yw rhieni wedi'u gwahanu, bydd yn anoddach cyrraedd Y Ddraenen Wen. Mae angen i Dad fynd i'r gwaith a bydd y traffig yn Y Ddraenen Wen yn waeth.**
- A. Bydd mesurau rheoli'r traffig yn cael eu hystyried yn rhan o'r cynlluniau.

Cafodd yr holl ddisgyblion eu diolch am eu cwestiynau a daeth y cyfarfod i ben am 3.30 pm